



## Gweithdai Twrcïod

### Yn y rhifyn hwn:

Gweithdy lechyd Moch	2
Bara gyda'r un filltir	2
Pa mor galed yw 'caled'	3
Rhiwbob	3
Digwyddiadau I ddod	4
Ffeithiau am CALU	4

Ym mis Mehefin, dechreuir rhaglen flynyddol CALU o sgysiau, sioeau a digwyddiadau. Un o'r digwyddiadau cyntaf i ni eleni fu'r gweithdy ar gynhyrchu twrcïod tymhorol.

Fel gyda'r rhan fwyaf o gynhyrchu bwyd, mae'r twrci, sy'n gyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl heddiw, yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd 20 neu 30 o flynyddoedd yn ôl.

Yn yr "hen ddyddiau da" roedd twrcïod yn cael eu tyfu'n araf, ac yn yr awyr agored yn bennaf, gan gymryd tua chwe mis i gyrraedd pwysau lladd.

Heddiw, caiff y rhan fwyaf o dwrcïod eu cynhyrchu mewn systemau dwys. Mae'r systemau

hyn yn cynnig manteision o ran glanweithdra, rheolaeth a chysondeb y cynnyrch, ond nid ydynt yn addas ar gyfer cynhyrchwyr ar raddfa fechan. I'r gwrthwyneb, gall y systemau eang, traddodiadol o dyfu'n araf, fod yn ychwanegiad delfrydol i brif fusnes y fferm, ac yn incwm tymhorol a groesewir yn nyfnderoedd gaeaf.

Bu i weithdai Cynhyrchu Twrcïod Tymhorol CALU, a gyllidwyd drwy Cyswllt Ffermio, ddod â dau o arbenigwyr dofednod mwyaf blaenllaw Prydain ynghyd i ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau.

Eglurodd Alison Wintrip o ADAS y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynhyrchu a lladd

twrcïod, gan bwysleisio pwysigrwydd cofrestru heidiau gyda mwy na 50 o adar.

Pwysleisiodd bwysigrwydd rheoli llygod ar ffermydd twrcïod hefyd. Gall llygod mawr a llygod gario salmonela. Os cedwir mwy na 500 o adar, bydd angen profi'n rheolaidd ar gyfer salmonela.

Bu i James Bentley, arbenigwr bridiau o Heritage Turkeys, grynhoi cyflwr presennol marchnad Prydain ar gyfer cig twrcïod. Ei gyngor ef oedd bod angen i gynhyrchwyr tymhorol, yn ogystal â magu adar o safon, weithio'n galed ar farchnata ac adeiladu perthynas gyda'u cwsmeriaid.

### Pwnc CALU:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau Amgen

## Dosbarth Meistr Garddwriaethol Henfaes

Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer ein Dosbarth Meistr Garddwriaethol cyntaf, i'w gynnal yn Henfaes, ger Bangor, ar 7 Hydref 2009.

Bydd y digwyddiad hwn yn dod ag arbenigwyr o'r sector garddwriaethol at ei gilydd i roi cyngor ar y canlynol: twnneli polythen; cyfryngau tyfu; maetholion; systemau tyfu mewn gwelyau uchel; cynhyrchu hadau llyisiau; a chynhyrchu tatws hadyd.

Mae siaradwyr sydd eisoes wedi cael eu cadarnhau ar gyfer y digwyddiad yn cynnwys:

- Ian Cannon o Link-a-bord
- Andy Hardie o Nutrimate
- Iain Barber o Jameson Brothers Potatoes
- Mathew Harrison o Northern Poly tunnels
- Steve Hughes o Scotts a
- Medwyn Williams o Medwyn's of Anglesey.

Gobeithiwn y bydd hyn yn dod yn ddigwyddiad rheolaidd yn y calendr.

## Gweithdy iechyd moch

### OEDDECH CHI'N

#### GWYBOD...

Mae yna fwy na 500 o wahanol fathau o bryfed gleision (aphid) ym Mrhydain. Yn ystod y gwanwyn a'r haf, mae pryfed gleision yn rhoi genedigaeth i rai bychain byw. Yn yr hydref, maent yn dodwdy wyau sy'n gaeafu.

Bu i grŵp Cynhyrchwyr Moch gogledd Cymru gyfarfod yng Nglynllifon ar 30 Ebrill i wrando ar gyflwyniad gan y milfeddyg moch, Claudia. Roedd sgwrs Claudia yn trafod prif afiechydon moch, yn cynnwys parasitiaid endo ac ecto a ffliw moch.

Ar ôl y sgwrs, cafwyd trafodaeth ar faterion iechyd mae'r grŵp wedi dod ar eu traws yn eu cenfaint, gyda llyngyr mawr yn bwnc o ddiddordeb penodol. Trodd trafodaethau wedyn at faterion cyffredinol yn ymwneud ag iechyd a lles moch.

Ar ôl y cyfarfod, rhoddodd CALU gopi o lyfryn Defra, 'Pigs—code of recommendations for the welfare of livestock', i'w holl aelodau.

Mae'r llyfryn hwn ar gael i'w lwytho i lawr am ddim o wefan Defra (<http://www.defra.gov.uk/animalh/welfare/farmed/pigs/pigcode.pdf>) ac mae'n rhoi canllawiau ysgrifenedig gwerthfawr a chilir ar faterion cyfreithiol ac arfer gorau'n ymwneud â hwsmonaeth moch. Mae CALU'n argymhell yn gryf bod pawb sy'n ymwneud â magu moch yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd gyda'r llyfryn hwn a'i ganllawiau.

Gan fod rhai aelodau o'r grŵp cynhyrchwyr yn teithio cryn bellter o ogledd ddwyrain Cymru, mae CALU yn gobeithio sefydlu grŵp arall yn y dwyrain. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r grŵp hwn, cofiwch roi gwybod i ni – edrychwch ar y

## Bara gyda'r un filltir fwyd (bron iawn)

Ar 19 Mai, pobwyd y dorth gyntaf o fara o wenith a dyfwyd ac a falwyd â maen yn Henfaes. Ac fe'i bwyttawyd yn gyflym.

Mae melino grawn yn ffordd ragorol i ychwanegu gwerthu ato. Mae malu â maen yn arbennig o dda gan ei fod yn cadw mwy o'r blas (a'r maetholion) na dulliau prosesu eraill.



Ar gyfer torth gyntaf CALU, bu i ni felino'r gwenith mewn melin rawn SAMAP 500. Mae hon yn ddigon bychan i'w chael mewn cegin ddomestig gyffredin, ond yn ddigon pwerus i gynhyrchu meintiau rhesymol o flawd. Mae'r gwneuthurwyr yn nodi y gall gynhyrchu rhwng 200g a 500g y funud

(gan ddibynnu ar ba mor fân neu fras yr ydych chi'n malu'r grawn).

Gallai melin ar raddfa fechan fel hon fod yn atyniad go iawn ar gyfer ffermydd sy'n gwerthu drwy farchnadoedd ffermwyr, neu sydd â mentrau gwely a brecwast. Bydd gallu hysbysebu'ch sgons neu fara fel rhai a wnaed o'ch grawn eich hun, wedi'i felino ar eich fferm eich hun, yn bendant yn ychwanegu gwerth atynt.

Yn ogystal, mae tystiolaeth bod blawd yn fwy maethlon drwy falu'r grawn fel y mae ei angen yn hytrach na'i storio fel blawd. Hefyd, mae mwy o flas iddo.



## Pa mor galed yw 'caled'

Daeth gaeaf 2008-09 â thymheredd is nag yr ydym wedi'i weld ers tro. Mae gaeafau mwyn wedi rhoi ymdeimlad ffug o sicrwydd i lawer. Mae planhigion yr arferwyd meddwl eu bod yn rhy dyner ar gyfer ein hinsawdd wedi bod yn sleifio i mewn i ganolfannau garddio a gerddi'n raddol. Gwaetha'r modd, mae tymheredd oer y gaeaf wedi difrodi, neu hyd yn oed ladd, llawer o'r planhigion mwy egsotig hyn.

Felly, beth yn union mae'n ei olygu os ydych chi'n dosbarthu planhigion fel 'caled'? Yn affnodus, nid yw'r ateb yn syml,

Mae yna wahanol ddosbarthiadau ar gyfer caledwch, a'r tri mwyaf cyffredin yw dosbarthiad yr *United States Department of Agriculture (USDA)*; y *Royal Horticultural Society (RHS)* a'r

*European Garden Flora (EGF)*.

Mae'r rhain i gyd wedi eu seilio ar dymheredd isafswm. Mae gan system yr *USDA* 11 brif adran, yn amrywio o Barth (zone) 11 lle nad yw'r tymheredd cyfartalog isaf byth yn disgyn o dan 4.5°C, i Barth 1 lle mae'r tymheredd cyfartalog isaf o dan -45.6°C andros o oer.

Dim ond pedair adran sydd gan system yr *RHS*:

- Hollol Galed (*Fully Hardy*) (H) – caled i -15°C
- Caled (*Frost Hardy*) (FH) – caled i -5°C
- Lledgaled (*Half Hardy*) (HH) – caled i 0°C
- Triglyd (*Frost Tender*) (FT) – ddim yn galed o dan 5°C

Mae gan ddsbarthiad yr *EGF* bum adran (H1 i H5) rhwng 0°C ac -20°C a dau gategori tŷ gwydr - G1 ar gyfer gwydr heb ei wresogi a G2 ar gyfer planhigion

sydd angen amddiffyniad tŷ gwydr wedi'i wresogi.

Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o bobl wedi sylwi nad y tymheredd absoliwt yn unig sy'n achosi difrod barrug. Mae angen ystyried yr adeg o'r flwyddyn y digwydd y barrug hefyd; yr amodau tywydd sy'n cyd-fynd â hynny – gall gwynt rhewlyd o'r gogledd ddwyrain gydag ychydig o farrug wneud mwy o ddifrod na tymheredd tebyg ar un noson lonydd; ac am ba mor hir y ceir y tymheredd isel.

Yn ogystal, er bod ein ffocws wrth siarad am galedwch wedi ymwneud â chaledwch tymheredd isafswm, mae yna ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar galedwch cyffredinol planhigion, er enghraifft, faint o ddŵr tymhorol sydd ar gael a'i allu i wrthsefyll clefydau. Mae angen bod yn ofalus bob amser wrth hawlio bod planhigion yn "galed" ac wrth nodi

### OEDDECH CHI'N

#### GWYBOD...

Mae yna ddau brif fath o rhew: Llwydrew (*rime*) yw'r math o rhew gwyn pluog mwy cyffredin. Glasrew (*hoar*) yw rhew tryloyw caled a ffirfir pam fydd haen o ddwr yn rhewi.

## Rhiwbob, rhiwbob, rhiwbob

Mae rhiwbob bob amser yn un o'r cnydau sy'n denu llawer o sylw mewn digwyddiadau CALU.

Mae rhiwbob yn blanhigion cymharol hawdd i'w dyfu. Mae'n tyfu orau mewn safle heb gysgod, ac mewn pridd arbennig o oer a thrwm. Bydd yn hoffi cael ei blannu mewn gwely neu dwmpath. Y brif ffordd o luosogi yw drwy rannu'r goron. Caiff y rhain eu plannu allan ym mis Tachwedd (neu Fawrth, os nad oedd Tachwedd yn bosibl).

Er bod rhiwbob yn gymharol di-broblem, gall gwllithod ddifetha planhigion ifanc a gall clefyd ffwngaid, ddinistriio cnwd yn gyflym.

Er bod rhiwbob yn cael ei fwyta fel ffrwyth, caiff ei ddsbarthu fel llysiuyn gan mai coesyn y ddeilen a fwyteir (*petiole*), ac nid y ffrwyth. Golyga hyn, at ddibenion rheoli, y caiff y cnwd ei drin fel cnwd dail, ac nid ffrwyth, ac mae Nitrogen yn elfen hanfodol.

Yn draddodiadol, a chyda llawer o lwyddiant, gwrtaitth fferm oedd y ffynhonnell a ddewiswyd i ddarparu Nitrogen (a maetholion eraill) i gnydau rhiwbob.

Mae rhiwbob gorfod (*forced rhubarb*) yn gnwd arbenigol a gynhyrchir drwy dyfu coron

mewn tywyllwch llwyr. Er y gall rhiwbob gorfod fynnu pris premiwm, mae'n gofyn am lawer iawn o waith edrych ar ei ôl. Y mae hefyd yn disbyddu'r coronau'n gyflym, tra bydd rhiwbob awyr agored yn parhau i roi cnwd am nifer o flynyddoedd.

Drwy ddewis y mathau'n ofalus, golyga y gellir cynaeafu cnwd rhiwbob yn yr awyr agored mor gynnar â Chwefror, hyd at yr hydref.

Mae CALU yn cynhyrchu taflen ffeithiau ar rhiwbob, a bydd hon ar gael yn fuan.

## CANOLFAN DEFNYDD TIR AMGEN

Canolfan Ymchwil Henfaes  
Prifysgol Bangor  
Abergwyngregyn  
LLANFAIRFECHAN  
LL33 0LB  
Ffôn: 01248 680 450  
Ffacs: 01248 681730  
E-bost: calu@bangor.ac.uk

[www.calu.bangor.ac.uk](http://www.calu.bangor.ac.uk)

### Yn Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy



## Digwyddiadau i Ddod

**Dydd Mawrth 16 Mehefin** — Cynhyrchu twrciod tymhorol - Gweithdy, Gwestu Nant-Y-Ffin, Clynderwen, Sir Benfro

**Dydd Mercher 17 Mehefin**— Cynhyrchu twrciod tymhorol - Gweithdy, Canolfan Ymchwil Henfaes, Abergwyngregyn

**Dydd Mercher 1 Gorffennaf**— Grawnfwydydd llwyddiannus mewn hinsawdd anodd, Canolfan Ymchwil Henfaes, Abergwyngregyn

**Dydd Llun 20— Dydd Iau 23** — Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Maes y Sioe, Llanfair ym Muallt

**Dydd Mercher 29 Gorffennaf**—Sioe Amarthyddol Sir Aberteifi, Caeau Briscwm, Aberteifi

**Dydd Gwener 7 Awst**—Sioe Amethyddol Abergwaun, Cae Fronhaul, Heol Cefn, Abergwaun

**Dydd Mawrth 11 a Dydd Mercher 12 Awst**— Sioe Amaethyddol Mon, maes y sioe Gwalchmai, Ynys Mon

**Dydd Gwener 14 Awst**— Gweithdy Tatws. Canolfan Ymchwil Henfaes, Abergwyngregyn

**Dydd Mercher 19 Awst**—Sioe Amaethyddol Fro Morgannwg, Fonmon Castle Park, Rhoose

**Dydd Mercher 26 Awst**—Sioe Amaethyddol Meirionneydd, Maes Sioe Corwen

**Dydd Iau 27 Awst**—Sioe Amaethyddol Trefynwy, A466, Heol Redbrook, Trefynwy

**Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth am unrhyw rai o ddi-gwyddiadau CALU.**

## Ffeithiau am CALU

Mae CALU'n cyflwyno Rhaglen Datblygu Rheolaeth Tir Cyswllt Ffermio. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth i unrhyw fusnes yng Nghymru sydd â diddordeb yn y canlynol:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd


Mae gan CALU dri aelod staff parhaol a rhywdaith o arbenigwyr cysylltiedig sy'n ymdrin â'r holl feysydd yng nghylch gorchwyl CALU.

GWEITHGAREDDAU CALU:

- Dyddiau agored
- Arddangosiadau
- Tafenni technegol
- Dyddiau hyfforddi
- Erthyglau i'r wasg
- Tafenni gwybodaeth am gnydau
- Adroddiadau project
- Sgyrsiau
- Grwpiau cynhyrchwyr
- Sioeau amaethyddol
- llyfyrnau gwybodaeth

CALU PARTNER:

- Prifysgol Bangor
- Coleg Garddwriaeth Cymru
- ADAS Cymru
- Coed Cymru
- Coleg Llysfasi



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardalwedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



FARMING  
connect  
cyswllt  
FFERMIO

08456 000 813